

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: 8 Medi 2017

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 14 MEDI 2017** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 PENOD IS-GADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)**

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gyfer blwyddyn 2017/18 y Cyngor (disgrifiad o'r rôl wedi'i atodi).

#### **4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2017 (copi ynghlwm).

**9.35 a.m. – 9.40 a.m.**

**Bydd y Pwyllgor yn trafod yr eitem ganlynol yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor Archwilio Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 adrannau 19 ac 20.**

**6 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2016-2017** (Tudalennau 15 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (copi ynghlwm) a rhoi sylwadau ar weithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2016-2017 a'r Blaenoriaethau Lleol ar gyfer 2017-2018.

**9.40 a.m. – 10.20 a.m.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2016 – 31 MAWRTH 2017** (Tudalennau 77 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn (copi ynghlwm) i roi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf.

**10.20 a.m. – 10.50 a.m.**

~~~~~ **EGWYL (10.50 a.m. – 11.00 a.m.)** ~~~~~

**8 RHYDDHAU AMSEROL O'R YSBYTY** (Tudalennau 91 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Prif Reolwr, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (copi ynghlwm) yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma o ran datblygu trefniadau cymunedol i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.

**11.00 a.m. – 11.30 a.m.**

**9 CYLLIDEBAU CYFUN** (Tudalennau 105 - 112)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (copi ynghlwm) i roi gwybodaeth i'r Aelodau o ran y trefniadau cyllidebau cyfun presennol ac yn y dyfodol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**11.30 a.m. – 12.00 noon**

**10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 113 - 142)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.00 noon – 12.15 p.m.**

**11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.15 p.m. – 12.20 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Gareth Davies  
Tony Flynn  
Pat Jones  
Christine Marston

Melvyn Mile  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
Huw Williams  
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

- (vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**  
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

*Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd*

## 1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

## 2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

## 3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch
  - Undod
  - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
  - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
  - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 22 Mehefin 2017 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Tony Flynn, Huw Jones, Pat Jones, Christine Marston, Andrew Thomas, Rhys Thomas a Huw Williams

**Aelod Cabinet Arweiniol** - Roedd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yn bresennol ar gyfer eitem 6

**Yn Arsylwi** - y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts, Emrys Wynne a Mark Young

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (EJ), Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol (PG), Swyddog Comisiynu (CW), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddydd y Pwyllgor (KEJ)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Melvyn Mile

Yr Aelod Cabinet Arweiniol – y Cyngorydd Bobby Feeley.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

#### 3 PENODI IS-GADEIRYDD

O ystyried nad oedd aelodaeth y Cabinet yn derfynol eto ac y byddai'n debygol o gael goblygiadau o ran aelodaeth pwyllgorau archwilio, awgrymwyd gohirio penodi Is-Gadeirydd.

**PENDERFYNWYD** – gohirio penodi Is Gadeirydd y Pwyllgor tan y cyfarfod nesaf.

#### 4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

#### 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2017.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2017 fel cofnod cywir.

## **6 PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CAEËDIG SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Perfformiad Cyllid ac Asedau Strategol yr adroddiad ac atodiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a brifiodd y Pwyllgor ynghylch y cefndir i benderfyniad y Cyngor i dynnu'n ôl o ddarparu ei wasanaeth TCC a throsglwyddo darpariaeth y gwasanaeth i Bartneriaeth TCC Sir Ddinbych.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill -

- er bod y Cydlynnydd TCC llawn amser yn cael ei gyflogi gan y Cyngor, roedd y swydd yn cael ei hariannu gan y Bartneriaeth
- er gwaetha'r ffaith nad oedd y delweddau'n cael eu monitro 24 awr y dydd, ni fu cynnydd amlwg mewn achosion o drosedd ac anrhefn.
- tra bo'r Bwrdd Partneriaeth TCC, a oedd yn goruchwyllo gwaith y Bartneriaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth TCC, yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd, cydnabu nad oedd y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth cyfredol yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd oed y gweinydd TGCh a'r gofynion cynnal a chadw camera.
- roedd y Bwrdd wedi archwilio nifer o fodelau darparu posibl ar gyfer y gwasanaeth. Ar ôl ystyried sawl opsiwn gwahanol, cytunwyd dechrau gweithio gyda Chyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn y dyfodol.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd -

- amlinellu cost y gwasanaeth TCC pan oedd y Cyngor yn ei weithredu a'r penderfyniad a gymerwyd fel rhan o'r ymarfer cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd i dynnu yn ôl o'i ddarparu gan nad oedd yn wasanaeth statudol.
- Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth ac felly cytunwyd gweithio gyda'r holl bartneriaid a oedd yn fodlon cydweithio i ddarparu gwasanaeth TCC. Cynghorwyd er nad oedd Cyngor Sir Ddinbych bellach yn cyfrannu'n gorfforaethol tuag at gost y Gwasanaeth TCC, nid oedd gwasanaethau penodol o fewn y Cyngor yn cyfrannu swm ariannol e.e. Gwasanaethau Parcio, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
- cadarnhaodd bod y Bartneriaeth TCC yn darparu gwasanaeth camera TCC gofod cyhoeddus sefydlog i drefi Prestatyn, Rhuddlan a'r Rhyl. Roedd gan drefi sirol eraill eu trefniadau preifat eu hunain ar gyfer gwasanaethau TCC
- cynghorwyd fod gan yr Heddlu TCC symudol a oedd yn cael eu defnyddio mewn mannau lle mae trosedd ac anrhefn yn fynych. Roedd gan y Cyngor hefyd gamera symudol a allai gofnodi delweddau, ond nid oedd yn bwydo'r llun i'r ystafell reoli
- eglurwyd y fformwla arfaethedig ar gyfer pob un o'r tair tref (yn yr atodiad cyfrinachol) ar gyfer darparu Gwasanaeth TCC oddi wrth y Bartneriaeth a oedd yn cynnwys isafswm sicr o gamerâu ar gyfer pob un o'r trefi. Roedd yr



adroddiad hefyd yn cynnwys y cytundeb cynnal a chadw arfaethedig ar gyfer y camerâu a oedd eisoes yn eu lle a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd pan fyddai unrhyw gamera'n diffygio neu'n dod i ben ei fywyd trwsiadwy.

- pwysleisiwyd o dan y cytundeb newydd y byddai sicrwydd ar yr isafswm o gamerâu ym mhob tref ar unrhyw un adeg, er y byddai'r nifer o gamerâu sy'n effro ym Mhrestatyn a'r Rhyl yn sylweddol uwch na'r isafswm sicr. Byddai swm a gyfrannwyd gan bob cyngor tref yn sicrhau'r isafswm o gamerâu gweithredol
- bod Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu £16k at y gwasanaethau TCC sir gyfan ar draws y rhanbarth
- cadarnhawyd bod y Bwrdd Partneriaeth TCC wedi ystyried pump gweithredwr posibl ar gyfer darparu gwasanaeth, gan gynnwys awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, ar ôl gwerthuso'r bidiau ac ymweld â holl ystafelloedd rheoli'r gweithredwyr er mwyn asesu'r math o wasanaeth y gellid ei ddarparu, daeth i'r amlwg bod y gwasanaeth y gallai CWCC ei gynnig yn y tymor hir yn llawer gwell. Roeddent eisoes yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a gallent ddarparu'r Bartneriaeth gyda gwasanaeth monitro adweithiol, 24 awr, 7 diwrnod o'r wythnos, a oedd yn fwy na'r hyn yr oedd y Bartneriaeth yn ddarparu ei hun ar hyn o bryd.
- dywedwyd byddai'r contract cynnal a chadw cyfredol gyda chwmni i wasanaethu a thrwsio camerâu yn parhau. Pan a phryd y credwyd y byddai camera wedi dod i ddiwedd ei oes trwsiadwy, byddai penderfyniad yn cael ei wneud, yn seiliedig ar asesiad risg, i amnewid y camera ai peidio gydag un o ardal risg isel.
- cadarnhawyd bod Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau Cynghorau unigol i gyd wedi ymrwymo i gyfrannu'r swm gofynnol tuag at y gwasanaeth am hyd y cyfnod contract. Gofynnwyd i'r tri chyngor tref hefyd wneud yr un ymrwymiad, gan y byddai hyn yn diogelu dyfodol y gwasanaeth am gyfnod y contract gyda CWCC. Unwaith byddai'r holl bartion wedi cytuno, byddai Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei lunio a fyddai'n ymrwymo'r holl bartneriaid i gyfrannu'n ariannol i'r Gwasanaeth am gyfnod penodol.
- cynghorwyd nad oedd y posibilrwydd o brydlesu camerâu TCC gofod cyhoeddus yn opsiwn. Gwnaed ymholiadau mewn perthynas â hyn ond roedd cwmnïau gweithgynhyrchu camerâu wedi cynghori nad pryddlesu fyddai'r opsiwn gorau
- cadarnhawyd, unwaith byddai'r gwasanaeth gyda CWCC wedi cael ei sefydlu, byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gyda chynghorau dinas, tref a chymuned eraill yn y sir ynghylch a fyddai diddordeb ganddynt mewn ymuno a chyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth. Gellid hefyd edrych ar ddichonoldeb caniatáu busnesau unigol i gyfrannu tuag at y system.

Yn ei rinwedd fel Cynghorydd Tref Rhuddlan ac aelod o Fwrdd Partneriaeth TCC, cadarnhaodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei fod wedi bod yn rhan o'r broses werthuso ar gyfer y gwasanaeth newydd arfaethedig. Roedd yn llwyr gefnogol o'r ymagwedd tymor hir ar gyfer darparu'r Gwasanaeth ac roedd yn teimlo byddai'r opsiwn CWCC yn diogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Er bod y Bwrdd Partneriaeth TCC wedi cytuno mewn egwyddor i fynd i gytundeb â CWCC, nid oedd dyddiad dechrau i'r contract wedi cael ei gytuno eto. Rhagwelwyd byddai'r gwasanaeth newydd yn dechrau cyn diwedd y flwyddyn galendr gyfredol.

Felly -

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR** yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (a) *i gefnogi rôl y Cyngor o fewn y Bartneriaeth;*
- (b) *parhau i gefnogi i gadw'r Bartneriaeth, a*
- (c) *Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn deuddeg mis yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda sefydlu'r trefniadau newydd rhwng Partneriaeth TCC Sir Ddinbych a Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer (CWCC), ei effeithlonrwydd o ran darparu Gwasanaeth TCC ar gyfer ardal gogledd Sir Ddinbych ac amlinellu unrhyw opsiynau posibl sydd ar gael ar gyfer ymestyn y gwasanaeth i rannau eraill o'r sir.*

**7 STRATEGAETH GOFLAWYR SIR DDINBYCH 2016-19**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a'r Swyddog Comisiynu ar gyfer Gofalwyr yr adroddiad, Cynllun Gweithredu a'r Asesiad Effaith Lles (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Yn eu cyflwyniad dywedont wrth aelodau bod Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) wedi cael hysbysiad yn ddiweddar eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu bid am arian Loteri. Roedd hyn yn newyddion da ar gyfer gofalwyr yn Sir Ddinbych gan y byddai NEWCIS yn gallu cynnig seibiant ar gyfer gofalwyr yng nghynllun tai gofal ychwanegol y sir. Mewn perthynas â chamau a oedd yn cofrestru fel 'coch' o hyd ar y cynllun gweithredu, roedd cais llwyddiannus NEWCIS yn cynnwys ariannu ar gyfer elfen gwasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr, tra byddai trafodaethau ar fabwysiadu'r model Cynhadledd Teulu ar gyfer sefyllfaoedd o fewn y gwasanaethau oedolion bellach yn dechrau ym mis Ionawr 2018.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- roedd swyddogion a phartneriaid yn gwneud eu gorau i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r holl ofalwyr o fewn y sir h.y. cafodd staff Pwynt Mynediad Sengl a Pwynt Siarad hyfforddiant i nodi problemau ac anghenion gofalwyr ac i godi eu hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi, sefydliadau trydydd sector a gomisiynwyd gan y Cyngor ac ymwelodd y Bwrdd Iechyd â gwahanol allfeydd gan gynnwys archfarchnadoedd a meddygfeydd ac ati i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwasanaethau ar gyfer gofalwyr
- tynnwyd sylw'r aelodau at sioeau teithiol i ofalwyr a digwyddiadau hyrwyddo yn rheolaidd a byddent yn parhau i gael eu cyhoeddi felly, gan fod croeso i gynghorwyr fynychu
- nid yw bob unigolyn yn gweld eu hunain fel gofalwyr, yn enwedig o fewn sefyllfaoedd teuluol. Maent yn tueddu i weld dyletswyddau gofalu fel rhan annatod o'u perthnasau.
- mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ffocws penodol ar ofalwyr, hyrwyddo annibyniaeth a sut byddai awdurdodau lleol yn cefnogi gwasanaethau a anelir ar fagu gwytnwch ymysg cymunedau
- roedd y Cyngor yn ymwybodol bod yna tua 3000 o ofalwyr yn gofyn cymorth yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, rhagamcanwyd i'r ffigwr hwn fod tua traean o wir nifer y gofalwyr yn y sir

- rhagamcanwyd bod tua 8% o blant dan 18 mlwydd oed yn Sir Ddinbych yn ofalwyr
- nid oedd yr holl ofalwyr eisiau cymorth ffurfiol oddi wrth y Cyngor na sefydliadau eraill. Er enghraifft, roedd gofalwyr mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn wydn iawn ac yn cael cefnogaeth oddi wrth eu cymunedau
- roedd budd-daliadau heb eu hawlio yn faes cymhleth, tra bo gwerth ariannol 'budd-daliadau heb eu hawlio' yn Sir Ddinbych, fel yr adroddwyd yn y cyfryngau, yn ymddangos yn gymharol uchel. Roedd y rheolau yn ymwneud â hawliadau aelwydydd a budd-daliadau gorgyffyrddol yn golygu na allai unigolion hawlio'r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Roedd Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych wedi darparu cyngor budd-daliadau ar ran y Cyngor ac wedi datblygu agwedd gyfannol tuag at y cyngor budd-daliadau, gyda'r bwriad o sicrhau gallai aelwydydd hawlio'r uchafswm hawliad a ganiateir.
- roedd y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl a'r CAB yn hynod ragweithiol wrth gyfeirio gofalwyr at wasanaethau a allai fod ar gael iddynt; gan gynnwys atgyfeirio ar gyfer gwiriadau budd-dal
- roedd y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' a gafodd staff gofal cymdeithasol gyda defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn erfyn defnyddiol i adnabod gofalwyr a'u cyfeirio at y gefnogaeth bosibl sydd ar gael
- roedd peth o'r gwaith estyn allan a wnaed i gefnogi gofalwyr ifanc ar draws y sir yn cynnwys mynd â grŵp ohonynt i ddefnyddio'r cyfleusterau Gwasanaethau Hamdden. Ymgwymerodd y Swyddog Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Gofalwyr i drafod gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Hamdden ynghylch dichonolrwydd cyflwyno cardiau Canolfan Hamdden ar gyfer gofalwyr ifanc i'w defnyddio yn eu hamser eu hunain fel rhan o'r gefnogaeth a ddarparwyd iddynt.
- byddai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal adolygiad o'r gwaith a wnaed yn y blynyddoedd diweddar, a'i ariannu trwy'r nawdd trosiannol a ddyrannwyd am flynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18, er mwyn gwerthuso'r deilliannau a'u defnyddio fel sylfaen ar gyfer Cynllun busnes Rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau gofalwyr o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Cydnabu'r swyddogion tra bod llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi gofalwyr ar draws y sir, ni allai'r Cyngor fod yn foddog. Byddai'n parhau i weithio gydag eraill i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr o bob oed. Ar ddiwedd y drafodaeth -

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR** yn amodol ar y sylwadau uchod -

- Cadarnhau sut y mae partneriaid yn Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych, mewn cyd-destun o gynnydd mewn galw, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig;*
- parhau i gefnogi a hyrwyddo cyflawniadau'r Strategaeth Gofalwyr er mwyn i Wasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ddiwallu ei oblygiadau statudol ar gyfer Gofalwyr, mewn partneriaeth â phartneriaid statudol a thrydydd sector.*
- cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau;*

- (d) *Gofyn bod swyddogion yn trefnu digwyddiad hyfforddi ar 'ofal cymdeithasol' ar gyfer yr holl gynghorwyr, gan gynnwys ymweliad i'r sefydliadau gofal cymdeithasol megis llety Gofal Ychwanegol, a*
- (e) *bod adroddiad cynnydd ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr 2016-17 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2017.*

## **8 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, yn ei rhinwedd fel Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2016-17 drafft y Cyfarwyddwr. Soniodd bod yr adroddiad, a oedd yn crynhoi ei gwerthusiad o effeithlonrwydd y Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei sylwadau ar ei gynnwys cyn ei gyflwyno i'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru erbyn y terfyn amser statudol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth aelodau'r Pwyllgor yn dilyn ei gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y gwasanaethau oedolion a gofal cymdeithasol, ei bod wedi dod i'r canlyniad bod y gwasanaethau a ddarparwyd yn effeithiol yn y ddau sector. Fodd bynnag, byddai yna wastad lle ar gyfer gwelliant a byddai yna wastad heriau newydd i'w taclo, felly ni fyddai lle i fod yn foddog.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau ar gynnwys yr adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr -

- bod y mater o ddigartrefedd yn cael ei drin o dan ddeddfwriaeth benodol tra bo tai, gan gynnwys tai cymdeithasol yn cael ei lywodraethu gan wahanol fframweithiau deddfwriaethol.
- Roedd swyddogion yn gobeithio dod â'r Strategaeth Digartrefedd newydd gerbron aelodau pan fyddai ar gael, a chadarnhawyd bod y gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl gan mwyaf yn wasanaeth cyfeirio dros y ffôn ar gyfer gwasanaethau eraill. Darparwyd gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy'r fenter Pwyntiau Siarad. Roedd y gwasanaethau Pwyntiau Siarad ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y sir ac roeddent yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac mewn lleoliadau cymunedol. Os nad oedd person yn gallu mynychu digwyddiad Pwynt Siarad, gellid trefnu ymweliad, ond yn anffodus nid oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i drefnu ymweliadau cartref fel mater o raid
- Roedd Pwyntiau Siarad yn ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda phreswylwyr a thynnu gwasanaethau i'w sylw gan fod ganddynt fynediad at ystod eang o arbenigwyr proffesiynol i gynorthwyo gyda'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda phreswylwyr
- gwnaed penderfyniadau ynghylch cynnal ymweliadau cartref â defnyddwyr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar farn arbenigol broffesiynol.

Estynnodd y Pwyllgor eu llongyfarchiadau i'r Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth ar eu hymateb cadarnhaol a rhagweithiol i'r Safonau Cymraeg newydd a'r fframwaith Mwy Na Geiriau. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid canmol mabwysiadu'r ymagwedd 'Cynnig Gweithredol'. Canmolodd yr aelodau hefyd ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal cymdeithasol ar gyfer plant yn y sir.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y Pwyllgor -

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *Fod yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad y Gwasanaeth yn 2016/17, a;*
- (b) *Bod sesiwn briffio'r Cyngor yn cael ei drefnu ar gyfer yr holl gynghorwyr sir ynghylch materion tai, yr un llwybr mynediad at dai (SARTH), digartref a digartrefedd.*

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- mewn ymateb i awgrymiadau ar gyfer eitemau posibl i'w harchwilio yn y dyfodol, eglurodd y Cydlynnydd Archwilio'r broses gyfredol a thynnodd sylw at y ffurflen cynnig aelodau i'w llenwi a'i chyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion.
- Cytunwyd gwahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i gyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol i drafod eitemau busnes sy'n berthnasol i'w portffolios
- ystyriwyd a thrafodwyd enwebiadau ar gyfer penodi i'r Grwpiau Herio Gwasanaeth a'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *Yn amodol ar ychwanegu'r eitemau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, cymeradwyo'r rhaglen waith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad;*
- (b) *penodi'r aelodau canlynol fel cynrychiolwyr y pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth -*

*Gwasanaethau Addysg a Phlant – y Cynghorydd Rhys Thomas  
Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol - Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones  
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Y Cynghorydd Christine Marston, a*

- (c) *Bod y Cydlynnydd Archwilio yn e-bostio holl aelodau'r pwyllgor yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb am y swyddi gwag sy'n weddill ac i roi ystyriaeth bellach i'r mater yn y cyfarfod nesaf.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.

|                                 |                                                                                      |
|---------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>                                             |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>14 Medi 2017</b>                                                                  |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Rheolwr Diogelwch Cymunedol</b>                                                   |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2016-2017</b>              |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae adroddiad gweithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar y cyd-flaenoriaethau partneriaeth a nodwyd yn ystod Archwiliad Troseddau Gogledd Cymru sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yn llunio cynllun gweithredu y mae'n ei fonitro. Yn lleol, rydym ni'n gweithredu'r cynllun hwn drwy ddadansoddi beth sy'n digwydd yn ein hardal a gweithredu datrysiadau lleol.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am weithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2015/16 a'r Blaenoriaethau Lleol ar gyfer 2017-2018.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn rhoi sylwadau ar gynnwys y cynllun gweithredu a'r adroddiad perfformiad amgaeedig.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Sefydlwyd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Roedd gan bob Awdurdod ei Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hun. Deng mlynedd yn ôl fe unodd timau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwr.

Mae Gwella Busnes a Moderneiddio yn arwain o ran rheoli'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol - sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn – Cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych; Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (**Alan Smith**), Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol (**y Cyng. Mark Young - Mai 2017**)
- Grŵp Gweithredu – grŵp gweithredol sy'n cyfarfod pob chwarter i drafod problemau sy'n codi – gyda Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (**Emlyn Jones**) a'r Swyddog Cynllunio Strategol (**Carol Evans - Mai 2017**) yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych
- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – a gynhelir bob mis gyda'r Uwch Swyddog Gorfodaeth (**Tim Wynne-Evans**) yn mynychu ar ran Cyngor Sir Ddinbych.

4.3 Dyma oedd blaenoriaethau 2016-2017:

### **1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal – Blaenoriaethau Lleol/Rhanbarthol**

- 1.1. Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
- 1.2. Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- 1.3. Cefnogi pobl ddiarnedd er mwyn eu hatal rhag dioddef troseddau
- 1.4. Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ailadroddir er lles dioddefwyr a chyflawnwyr
- 1.5. Gweithio gyda Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg i reoli nifer y bobl sy'n dioddef o gam-drin domestig dro ar ôl tro
- 1.6. Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o gam-drin domestig a thrais rhywiol
- 1.7. Gwella hyder pobl o ran rhoi gwybod am gam-drin domestig a thrais rhywiol
- 1.8. Cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o drais rhywiol

### **2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal – Blaenoriaeth Genedlaethol / Rhanbarthol**

- 2.1. Lleihau nifer y bobl sy'n camddefnyddio sylweddau

### **3. Lleihau aildroseddu – Blaenoriaeth Genedlaethol / Rhanbarthol**

- 3.1. Oedolion yn aildroseddu
- 3.2. Plant a phobl ifanc yn aildroseddu

### **4. Blaenoriaethau lleol penodol**

- 4.1. Ymateb yn briodol i droseddau amgylcheddol
- 4.2. Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig a thacsis
- 4.3. Gwella hyder pobl o ran rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r awdurdod lleol
- 4.4. Mynd i'r afael â manau ymddygiad gwrthgymdeithasol problemus mewn partneriaeth

4.5 Mae gan bob maes blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym ni'n adolygu'r ystadegau pob chwarter yn y Grŵp Gweithredu ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n codi.



- 4.6 Gweler ynghlwm diweddariad ar y cynllun gweithredu ar gyfer 2016-2017 (**Atodiad 1**).
- 4.7 Gweler ynghlwm diweddariad ar berfformiad 2016-2017 (**Atodiad 2**).
- 4.8 Gweler ynghlwm strwythur y bartneriaeth er gwybodaeth (diweddariad mis Mai 2017) (**Atodiad 3**).

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cynllun Lles Sir Ddinbych.

Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Mae prosiectau partneriaeth y Cynllun Gweithredu yn cael eu hariannu'n llawn gan grantiau, fodd bynnag bydd pob gwasanaeth yn dyrannu swm penodol o gyllid i gefnogi canlyniadau yn uniongyrchol ar gyfer lleihau trosedd yn Sir Ddinbych.
- 6.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn derbyn cyllid grant penodol i ddarparu Cynllun Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan yr holl awdurdodau cyfrifol sy'n rhan o Grŵp Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae cyllid Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych fel a ganlyn:

(a) Cyllid Atal Troseddau Ieuenctid - £166,939 - Cyllid Llywodraeth Cymru sy'n ceisio lleihau nifer y troseddwr ifanc sy'n aildroseddu.

(b) Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - £27,063 - Cyllid Llywodraeth Ganolog ar gyfer materion lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

(c) Cyllid Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Swyddog Trais Domestig Annibynnol - £37,500 - cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno a gweithredu Polisi a Strategaeth Cam-drin Domestig.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm (**Atodiad 4**).

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

- 8.1 Yn 2015 ymgynghorodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghylch Cynlluniau Gweithredu 2015-2017 gyda'r holl awdurdodau cyfrifol (Cyfarwyddwyr a Phenaeithiaid

Gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac Iechyd).

- 8.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor.
- 8.3 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd yn ôl yr angen i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1 Dylid cynnwys cost darparu'r cynllun yn y cyllid allanol sydd ar gael.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1 Y brif risg yw nad ydym ni'n gwybod beth fydd y cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2018-2019. I liniaru'r risg bydd pob achos busnes yn gadarn a bydd gan bob prosiect a ariennir ganlyniadau clir yn unol â gofynion y grant.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**


- 11.1 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anhrefn 2009
- Mae Adran 7.15.2 yn nodi bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, yn ei rôl fel Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor, yn gyfrifol am sicrhau bod buddiannau, adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn unol ag adrannau 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Rhif ffôn: 01492 575190



## Appendix 1

### Conwy and Denbighshire Community Safety Partnership

#### Sub-regional Action Plan for 2015/17

## Conwy and Denbighshire Community Safety Partnership Plan 2015/17

The recent North Wales Safer Communities Board (SCB) has established a number of “focus” areas for crime and disorder in North Wales based on the North Wales Strategic Assessment and the Police Crime Commissioner’s Plan. This has been developed into a North Wales SCB plan outlining the regional focus for the SCB and local focus for the Community Safety Partnerships (CSPs). The recommended areas for CSP focus are listed below;

### 1. Reduce crime and disorder in the area

- 1.1. Reduce victim based crime
- 1.2. Reduce ASB
- 1.3. Support vulnerable people to prevent them becoming victims of crime
- 1.4. Reduce repeat incidents of victim based crime and ASB for victims and perpetrators
- 1.5. Work with MARAC to manage the levels of repeat victims of Domestic Abuse
- 1.6. Deal effectively with high risk cases of Domestic Abuse and Sexual Violence
- 1.7. Increase the confidence in reporting Domestic Abuse and Sexual Violence
- 1.8. Increase awareness amongst young people of sexual violence

### 2. Combat substance misuse in the area

- 2.1. Reduce substance misuse


### 3. Reduce reoffending

- 3.1. Adult reoffending
- 3.2. Children and young people reoffending


As recommended all of the above areas will be included in the local Conwy and Denbighshire Community Safety Partnership plan for 2015/16. In addition the following local priorities will also be included following consultation with the members of the Conwy and Denbighshire Strategic Group.

### 4. Local priorities

- 4.1. Provide appropriate response to environmental crime
- 4.2. Reduce crime linked to licensed premises and taxis
- 4.3. Improve confidence in reporting ASB to L



**Action required immediately**



**Actions or projects on track, but not yet complete. Review at each CSP meeting**



**Actions or project are complete**



**Update not received by nominated person**

The following plan aims to detail the actions and initiatives the Conwy and Denbighshire CSP has in place to contribute towards the focus areas for 2016/17.

## 1. Reduce crime and disorder in the area

| 1.1 Reduce victim based crime                                                                                                                                                                       |                                                           |                                                                                                                                                                                                |                                                 |                                                                                                                                                    |                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                         |            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|
| Actions / Initiatives                                                                                                                                                                               | Target Date/ secured project                              | Frequency/ Activity                                                                                                                                                                            | Agency / Funding                                | Desired Outcome                                                                                                                                    | Performance measure if available | update                                                                                                                                                                                                                                                                                  | RAG Status |
| <p>OWL alerts Via North Wales Police, Twitter LA/NWP accounts and Conwy Trading Standards Facebook utilised to raise awareness.</p> <p>Denbighshire to explore additional social media options.</p> | <p>Weekly updates</p> <p>2016-2017</p> <p>Surveys are</p> | <p>Regular weekly messages sent out via Police and Local Authority Twitter accounts.</p> <p>Conwy Trading Standards Facebook accounts used to warn of any distraction burglaries In Conwy.</p> | <p>NWP/ LA/ CSP</p> <p>DCC LA</p> <p>DCC LA</p> | <p>To keep residents and business in Denbighshire and Conwy up to date with any incidents that might result in further crimes being committed.</p> |                                  | <p>There are weekly twitter updates sent out via the police and re-tweeted by both LA's. The Fire service also tweet on a weekly basis.</p> <p>OWL is being replaced by a more cost effective system. The action plan will be updated as soon as this new system is up and running.</p> |            |

|                                                                                                                                            |                                                       |                                                                      |                                 |                                                                                                                                                  |                                                                                               |                                                                                                                     |  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| Denbighshire to identify home surveys carried out by the housing grants team                                                               | ongoing the CSP need to capture the data in 2016-2017 | Emlyn Jones- Public protection Denbighshire<br><br>Capture the data. |                                 |                                                                                                                                                  |                                                                                               |                                                                                                                     |  |
| Cocooning to multiple addresses in the vicinity of a crime to statistically reduce the chances of becoming a victim of crime               | As and when there are burglaries                      | Ad Hoc                                                               | NWP                             | To prevent other residents in the area of a burglary becoming a victim,                                                                          | Reduction in the number of burglaries in a specific area as identified in the cocooning area. | This is ongoing when there is a burglary in a dwelling. The Neighbourhood Policing Teams Manage all of the process. |  |
| Home and business security surveys carried out to highlight target hardening measures to reduce the chances of becoming a victim of crime. | As and when requested                                 | Ad hoc                                                               | NWP/ DCC LA housing enforcement | Designing out crime                                                                                                                              | Reduction in the number of businesses falling victims to crime.                               | On average the police carry out 5 surveys per week.                                                                 |  |
| Attendance at community events with local Neighbourhood Watch volunteers to promote home safety and target hardening.                      | On average 5 events per month held                    | Approximately 10 events per quarter attended in DCC and CCBC         | NWP                             | To keep the community updated on crime prevention and help to reduce opportunist burglaries by informing residents about basic crime prevention. | Reduction in the number of burglaries general safety awareness.                               | Since April the NHW volunteers have attended 22 community events/ Supermarkets/Shopping centres.                    |  |

| 1.2 Reduce ASB        |                                                                                                                          |                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                              |                                                                                             |                                                                                                          |  |
|-----------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| Actions / Initiatives | Target Date                                                                                                              | Frequency/ Activity                                                                | Agency / Funding                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Desired Outcome                              | update                                                                                      | RAG Status                                                                                               |  |
| Tudalen 24            | Antisocial behaviour coordinator-<br>Police focussed work. (Police Crime<br>Commissioner ring fenced funding for<br>ASB) | Post<br>Sustained<br>until March<br>2018 via<br>the PCC                            | PCC funded post to<br>work alongside LA<br>funded ASB officer in<br>Conwy to ensure all<br>cases of ASB can be<br>cross- referenced.<br>Denbighshire do not<br>have a Local Authority<br>Funded ASB officer,<br>ASB is reported via<br>various departments in<br>Denbighshire and any<br>cross referencing<br>would be done by<br>officers contacting<br>North Wales Police to<br>check out information.<br>Any joint ASB issues<br>are coordinated by the<br>CSP Manager. | Post is funded by the<br>PCC- <b>£22,000</b> | Reduction in the<br>number of ASB cases<br>reported to the<br>Police and Local<br>Authority | The number of<br>cases of ASB<br>reported has seen a<br>reduction.                                       |  |
|                       | Conwy Local Authority funded ASB<br>officer                                                                              | Revenue<br>funded post                                                             | Post staffed via Conwy                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | This is a core funded<br>post for Conwy LA.  | Reduction in the<br>number of ASB cases<br>reported to the<br>Police and Local<br>Authority | The officer is a full<br>time Council<br>employee who<br>manages any<br>requested coming<br>into the LA. |  |
|                                   |                                                                                                         |
|-----------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilo Partneriaethau</b>                                                                 |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>14 Medi 2017</b>                                                                                     |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br/>Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau<br/>Cymorth Cymunedol</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Cydlynedd Diogelu Oedolion Diamddiffyn</b>                                                           |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn<br/>Sir Ddinbych 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017</b>      |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad perfformiad blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i Uned Ddata Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos y cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r meysydd pryder a godwyd gan AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2016 - 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant.

## 4. Manylion yr adroddiad – Cefndir

4.1 Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddwyd llythyr gan yr AGGCC a oedd yn trafod Adolygiad Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Yn y llythyr hwn fe godwyd y meysydd pryder canlynol mewn perthynas â pherfformiad y cyngor ym maes amddiffyn oedolion:

*“Yn ystod 2016/17 parhaodd yr AGGCC i nodi meysydd pryder a'u codi'n uniongyrchol â rheolwyr wrth iddynt ddod i'r amlwg. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys diffyg cyfranogiad yr unigolyn neu ei ofalwyr yn y broses ddiogelu, roedd disgwyl i ddarparwyr gofal ymchwilio'u hunain heb arolygaeth, roedd cofnodion yn anghyflawn ac nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth allweddol, diffyg prydlondeb y cyfarfodydd strategaeth ac roedd nifer o achosion diogelu heb eu cwblhau.”*

Mae Uwch Reolwyr wedi gwadu rhai o'r pryderon hyn yn gryf (gweler atodiad 1) ac maent wedi gofyn i gyfarfod â'r Prif Arolygydd i drafod ymagwedd AGGCC at Sir Ddinbych.

## 5. Gweithgarwch Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 2015 - 2017

| Blwyddyn    | Adroddiadau (atgyfeiriadau) a dderbyniwyd |
|-------------|-------------------------------------------|
| 2013 - 2014 | 298                                       |
| 2014 - 2015 | 354                                       |
| 2015 - 2016 | 355                                       |
| 2016 - 2017 | 527                                       |

### Penawdau o 2016 - 2017

- Cynnydd sylweddol (48%) o ran nifer yr adroddiadau (atgyfeiriadau) a dderbyniwyd
- Symudwyd 31% o achosion ymlaen i Gyfarfod Strategaeth
- Mae hanner yr adroddiadau a dderbyniwyd gan asiantaethau darparu.
- Y categorïau o gam-drin sydd â'r canrannau uchaf yw corfforol (39%) ac esgeulustod (31%)
- Yn ôl categori, gweithwyr cyflogedig (59%) oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am gyflawni camdriniaeth

### Gweler Atodiad 2 am benawdau diogelu data 2016 – 17

#### 5.1 Dangosyddion Perfformiad

Dim ond un dangosydd perfformiad cenedlaethol sydd yn ymwneud ag Amddiffyn Oedolion ar hyn o bryd: nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith. Ein cydymffuriad ar gyfer y flwyddyn gyntaf hon oedd 76%

## 6 Datblygiadau

- 6.1 Ers mis Ionawr 2016, mae newidiadau sylweddol wedi bod i fframwaith y Tîm Diogelu yn dilyn ailstrwythuro mewnol a gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Mae'r Tîm Diogelu'n Sir Ddinbych wedi datblygu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf. Mae'r Tîm bellach yn cynnwys yr aelodau staff canlynol:-

- Rheolwr Tîm
- 2 ddirprwy reolwr tîm
- 2 x Gweinyddwr Diogelu Llawn Amser
- Gweinyddwr Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Rhan Amser
- 2 weithiwr cymdeithasol

- 6.2 Mae'r model cyflwyno presennol wedi'i addasu i ddarparu'r broses ddiogelu a bennwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn ymwneud â Diogelu ac mae gofyn i awdurdodau lleol ymchwilio i achosion,

os ydynt yn amau bod oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Cyfeirir at hyn fel ymchwiliad.

6.3 Mae'r Canllaw (cyfrol 1) i Ran 7 y Ddeddf yn nodi'n fras y dylid sicrhau bod tri cham i bob ymchwiliad:

- sgriniad,
- gwerthusiad cychwynnol,
- penderfyniad.

Cynhelir y sgriniad fel blaenoriaeth gan Bwynt Mynediad Sengl, sy'n gwirio cywirdeb cyffredinol yr atgyfeiriad. Cynhelir y prosesau eraill - y gwerthusiad cychwynnol a'r penderfyniad gan y Tîm Diogelu. Os mai symud ymlaen i Gyfarfod Strategaeth yw'r penderfyniad terfynol - yna ar hyn o bryd rydym yn dilyn Polisïau a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn, wrth ddisgwyl am gyfrolau pellach o'r canllaw, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, gan gynnwys gwaith i adfywio Polisïau a Gweithdrefnau Interim Cymru.

6.4 O fewn yr ardal leol, o ran timau anabledau cymhleth ac iechyd meddwl, mae 15 rheolwr tîm a dirprwyon sy'n ymgymryd â rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig. Os yw canlyniad yr ymchwiliad yn nodi y dylid symud ymlaen i gyfarfod Strategaeth, bydd y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn trefnu ac yn cadeirio'r cyfarfod strategaeth yn ogystal â chydlynu'r broses ddiogelu i'w diwedd.

6.5 Ers datblygu capasiti'r Tîm Diogelu, mae llawer o waith wedi'i wneud i geisio symleiddio prosesau a sicrhau bod unigolion yn mynd i'r afael ag atgyfeiriadau diogelu ac yn eu cwblhau'n brydlon. Mae nifer yr atgyfeiriadau diogelu a gwblhawyd o fewn blwyddyn yn nodi gwelliant yn y maes hwn:

|           |     |
|-----------|-----|
| 2014 – 15 | 79  |
| 2015 – 16 | 101 |
| 2016 - 17 | 186 |

6.6 Yn gynharach eleni, cyd-leolwyd y Tîm Diogelu yn Rhuthun. Mae dod ag adran weinyddol y tîm at ei gilydd mewn un lleoliad yn sicrhau wedi cryfhau'r gefnogaeth y mae'r adran ei darparu ac wedi'n galluogi ni i rannu gwybodaeth, arbenigedd a llwyth gwaith yn fwy effeithlon. Hefyd, mae capasiti gweinyddol ychwanegol wedi'i gyllido i ddelio â gwaith DoLS, a allai gefnogi'r elfen ddiogelu o waith yn y dyfodol.

6.7 Mae materion ansawdd yn parhau i godi yn ystod y broses gau, yn ogystal ag yn ystod yr archwiliadau chwarterol, ond rydym yn ymdrin â'r materion hyn mewn modd llawer mwy priodol, drwy sesiynau hyffroddi a mentora rhwng yr Uwch Ymarferwr (Arweinydd Diogelu) a'r Rheolwyr Arweiniol Dynodedig mewn timau ardal leol. Mae prosesau mewnol i hwyluso diwedd pob achos a sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diwygio. Cynhelir archwiliadau chwarterol gan y Prif Reolwr, Rheolwr Gwasanaethau a'r Rheolwr Tîm ar hapsampl o achosion diogelu. Tra bod ansawdd cynnwys cofnodion y Cyfarfod Strategaeth yn gwella'n raddol yn enwedig

mewn perthynas â sicrhau galluedd a chaniatâd yr oedolyn mewn perygl a gwerthuso risg; mae lle i wella o ran prydlondeb cyfarfodydd.

## **7 Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)**

- 7.1 Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiadau Archwilio blaenorol, roedd Dyfarniad y Goruchaf Lys ar 19/3/14 a chyfraith achos pellach yn sbardun i gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch DoLS yn genedlaethol ac nid yw hyn yn wahanol yn Sir Ddinbych. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal adolygiad o'r fframwaith DoLS presennol ar draws Cymru a Lloegr, ac ymgynghorwyd ar ystod o ddiwygiadau pwysig yn ystod yr hydref 2016. Gwrthododd y Llywodraeth y diwygiadau cychwynnol a awgrymwyd gan gomisiwn y gyfraith ond fe dderbyniodd y rhai diwygiedig ac fe gawsant eu cyhoeddi mewn papur gwyn ym mis Ebrill 2017. Mae'r diwygiadau hyn yn argymhell gwneud newidiadau sylweddol o ran y broses ddiogelu a darparu mesurau diogelu yn y dyfodol. Gwaetha'r modd nid oedd y diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn araith y Frenhines ar gyfer y senedd bresennol ac ni ellir disgwyl eu gweithredu o fewn y 3 – 4 blynedd nesaf. Yn y cyfamser, bydd trefniadau a phrosesau DoLS yn aros yr un fath.
- 7.2 Yn ystod y flwyddyn hon roedd 68 awdurdodiad ar waith ac fe dderbyniwyd 314 o geisiadau. Mae 397 ar y rhestr aros ar hyn o bryd.
- 7.3 Yn y 12 mis diwethaf, mae 6 unigolyn wedi ymarfer eu hawl cyfreithiol i apelio i'r Llys Gwarchod, o ganlyniad i weithrediad awdurdodiad DoLS. Mae'r llys wedi dod i benderfyniad ar 3 achos, sef gwrthod yr apeliadau, tra bod 3 achos yn parhau.
- 7.4 Mae hyfforddiant a mentora wedi cael ei ddarparu'n rheolaidd i aseswyr lles gorau gan yr uwch ymarferydd (arweinydd DoLS) ac mae hyn wedi cynyddu hyder a gallu'r aseswyr lles gorau i ymgymryd ag asesiadau (8 y flwyddyn) fan lleiaf. Defnyddiwyd grant bychan o £15,000 gan Lywodraeth Cymru i ariannu asesiadau ychwanegol a gynhaliwyd gan yr aseswyr lles gorau yn eu hamser eu hunain. Ychwanegodd hyn 65 asesiad arall at gyfanswm yr asesiadau dros gyfnod o 12 mis .

## **8. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol i ddiogelu pobl ddiamddiffyn i'w galluogi i barhau i fyw yn annibynnol.

## **9. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae gwasanaeth eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

## **10. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

## **11. Pa ymgynghori a wnaed?**

Amherthnasol.



## 12. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn

## 13. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- Swm y gwaith ar gyfer Adroddiadau Diogelu a cheisiadau DoLS a chadw at y terfynau amser gofynnol
- Gwneud defnydd o'r amrywiaeth o sgiliau sydd i'w cael o fewn y Tîm Diogelu i gynyddu'r capasiti i ymdrin ag ymholiadau.
- Costau cynyddol gwaith DoLS h.y. asesiadau meddygol, Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol, ceisiadau i'r Llys.
- Cydymffurfio â'r dyfarniad mewn perthynas ag unigolion sy'n byw yn y gymuned, pan fo angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod.
- Hyd yma, rydym wedi cyflwyno 4 achos ger bron y Llys sydd wedi arwain at awdurdodiadau.  
Rydym wedi canolbwyntio ar y Tîm Anableddau Cymhleth ac wedi adolygu'r llwyth achosion er mwyn llunio rhestr o 147 unigolyn i'w hystyried ar gyfer ceisiadau llys yn ymwneud â cholli rhyddid mewn sefyllfaoedd cymunedol. Roedd Statws Coch Melyn Gwyrdd yn berthnasol i bob unigolyn yn seiliedig ar wrthwynebiad a lefel yr amddifadedd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r Adran Gyfreithiol ar geisiadau 6 unigolyn arall i'w cyflwyno ger bron y Llys.
- Oedi o ran recriwtio ar gyfer swydd dirprwy reolwr tîm a gwaith cymdeithasol.
- Mae dau weithiwr cymdeithasol wedi'u penodi dros dro i lenwi'r swyddi gwag i sicrhau bod digon o bobl yn y tîm er mwyn delio â'r llwyth gwaith wrth recriwtio am staff parhaol.

## 14. Pŵer i wneud y Penderfyniad -

- 14.1 Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

### Swyddog Cyswllt:

Cydlynnydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn

Rhif ffôn: 01824 706675

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Safeguarding Adults at Risk – briefing note in response to CSSIW Performance Review of Denbighshire in relation to Safeguarding Adults.**

**1. Lack of involvement of the individual or their carers in the safeguarding process.**

Summary of findings of safeguarding audits for 2016 -17 indicate there has been an improvement in this area with evidence of arrangements for feedback to the adult at risk and / or their family recorded in Strategy Meeting minutes and casenotes. There has also been improvement in recording the capacity and consent of individuals in relation to the safeguarding process.

**2. Care providers being asked to investigate themselves without oversight.**

The Wales Interim Policy and Procedures for the Protection of Vulnerable Adults from Abuse indicates that terms of reference for a non-criminal investigation should be considered by those present at the strategy meeting, which includes who the investigating agency or agencies will be.

Care providers, whether they be within the independent sector, third sector, health or local authority are often asked to identify an investigator from within their organisations. The 'oversight' is provided via the terms of reference agreed by those present at the strategy meeting, and also when the investigation report / feedback is discussed at a further strategy meeting.

Capacity within an organisation to carry out such investigations are often an issue. If it's deemed that a single agency investigation is appropriate, very often it is agreed that the case coordinator or contracts officer is also involved in the investigation.

There are times when an independent investigator is deemed necessary – this is often due to the complex or contentious nature of the allegations.

**3. Minutes being incomplete and lacking information.**

Summary of findings of safeguarding audits for 2016 -17 again indicate improvements in the content and quality of strategy meeting minutes.

A recent referral for an Adult Practice Review made it necessary for a senior manager to review strategy meeting minutes and they were pleased to see good quality minutes with clear rationale for decisions reached.

**4. Timeliness of strategy meetings and safeguarding cases left incomplete.**

A process has been developed setting out clear timescales for holding strategy meetings, completing and circulating minutes.

The Act sets out a standard for the completion of the enquiry stage (7 working days), however to date further guidance has not yet been published by Welsh Government recommending any timescales for the rest of the Safeguarding process. These timescales have been adapted from the Wales Interim Policy and Procedure.


Meeting these timescales are proving to be a challenge, mainly because of the need to ensure representation from key agencies, which is not always available. New



guidance regarding proceeding to a strategy meeting without all participants needs to be embedded in to practice.

Since strengthening the Safeguarding Team's capacity, a great deal of work has been undertaken to streamline processes and ensure safeguarding referrals are dealt with and completed in a timely manner. The number of safeguarding referrals closed within a year indicates the improvement in this area:


|           |     |
|-----------|-----|
| 2014 – 15 | 79  |
| 2015 – 16 | 101 |
| 2016 - 17 | 186 |

Headlines from Welsh Government Returns.





### Person alleged responsible for abuse



### Case 1

#### Overview of concern raised

Nursing home setting – allegation of neglect as result of lost controlled medication. Agency nurse allegedly failed to follow controlled drugs medication protocol, resulting in citizen with known historical drug addiction being able to steal large quantity of medication during drug administration period.

Threshold met on grounds that although no apparent harm occurred the potential to cause serious harm was evident, it was agreed that an investigation was required to determine how this error occurred. Police were involved and deemed the incident failed to meet their threshold for a criminal investigation on the grounds that no harm occurred and the incident was not intentional.

Initial strategy meeting was convened, the MDT agreed that a non-criminal investigation was required to fully review how the incident occurred and to review safeguarding measures for the individual and to consider the wider safeguards towards other residents within this home.

Immediate safeguarding action was taken at the time of reporting, with the agency worker being removed from the service and the agency was informed to support any wider safeguarding measures with other potential employers.

#### Action taken

Terms of reference were agreed to guide the investigation. The concluded outcome was that the agency nurse had been neglectful in their duties by failing to administer controlled drugs in accordance with NMC guidelines and in line with the home's policy and procedures, a delay in alerting management when the loss of medication was initially detected and a further failure to follow the home's local procedures in these situations.

Appropriate risk assessments were completed by the agency nurse's other employer, additional supervision and training completed along with completing a reflective practice piece of work.

The Home reviewed its own induction process for agency staff members, which were identified as being of a high standard. However, they did make amendments to further strengthen the safeguarding measures by reviewing their own policies and procedures in relation to equipment and staffing levels to support a more robust cover when administering controlled drugs, as result of the findings from the safeguarding investigation

Further disciplinary process was followed by agency and referral to the NMC regarding practise issue/competence of the RGN.

#### The difference/impact to the Citizen and or the service

The citizen involved has also reflected on his actions in taking the medication and has taken more responsibility in relation to his own rehabilitation programme, by engaging in community activities and exploring further education opportunities in attending college.



The revision of policies/procedures should reduce further risks in relation to medication dispensing for the individual and for others living in this service.  
The agency workers practise will also be reviewed by the regulatory body and consider any other action required to address any wider safeguarding issues.

## **Case 2**

### Overview of concern raised

A is 102 years of age and resident in a Care Home.

A has been diagnosed with dementia but is physically very active. After eating her tea, at approximately 17.35 she was able to leave the care home without staff knowledge and was returned 30 minutes later by a relative of a member of staff who had seen her walking alone. A was unable to identify herself or where she resided.

In response to this, additional safeguards were put into place by the Care Home including additional observations of A.

At 20.25 the same day, A was again able to leave the building without staff knowledge and was returned by the police having been found wandering along the road some distance from the home.

Further observations were introduced and staff advised to be more vigilant of A's whereabouts.

### Action taken:

Safeguarding enquiry stage completed which included discussion with CSSIW Inspector, DCC contracts officer, North Wales Police, care home provider.

Initial strategy meeting held.

In response to these incidents the provider has:

- 1) Undertaken a comprehensive risk assessment of all residents.
- 2) Completed a comprehensive Safeguarding Adults General Protection Plan
- 3) Reviewed and amended Risk management Plan
- 4) Amended Safeguarding: missing persons policy
- 5) Introduced a comprehensive training programme for all staff to include up to date safeguarding

In addition to the above, the provider has installed a new and more effective door closing mechanism that will eliminate the risk of the door being left open. Introduced a new visitor book with instruction relating to ensuring the door and outer perimeter gate is closed. Introduced a "Sun downing" activities programme that supports people with memory problems.

### The difference/impact to the citizen and or the service:

Having had this concern raised, the owner has responded positively having undertaken a thorough review of all risk management plans and general safeguarding protection plan. A is now benefitting from the support of the "Sun downing" programme

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                            |                                                                                     |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad i'r:             | Pwyllgor Archwilio Partneriaethau                                                   |
| Dyddiad y Cyfarfod:        | 4 Medi 2017                                                                         |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br>Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol |
| Awdur yr Adroddiad:        | Prif Reolwr, Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol                                         |
| Teitl:                     | Rhyddhau Amserol o'r Ysbyty                                                         |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma o ran datblygu trefniadau cymunedol i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth am y cynnydd mewn cyflawni'r broses o ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty a'r gwahanol fentrau sydd wedi'u datblygu yn gysylltiedig â hynny er mwyn i Aelodau roi sylwadau arnynt.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau'n rhoi adborth ar weithgareddau'r bartneriaeth i gefnogi rhyddhau amserol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Oedi wrth drosglwyddo gofal/Llif Rhyddhau Cleifion

Yn ystod 2016-2017, mae Un Pwynt Mynediad (SPOA) yn Sir Ddinbych wedi derbyn 15,126 o atgyfeiriadau i wasanaethau cymunedol, 4512 (29.8%) o ysbytai aciwt a chymunedol a 60 arall o Gwadrant Argyfwng. Mae partneriaid yn parhau i fonitro a rheoli oedi posib o ran gofal mewn cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd yn ogystal ag yn ystod yr archwiliad ffurfiol misol, sy'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ac yn ffurfio sail i'r dangosydd perfformiad statudol. O fewn Sir Ddinbych mae'r oedi a ddilyswyd ar gyfer rhesymau gofal cymdeithasol wedi lleihau ers datblygu'r Clwstwr Camu i Lawr ym Medi 2016. Yn 2014-2015, roedd 12; yn 2015-2016 roedd 25; yn 2016-2017 roedd 23, ac yn y 4 mis o 2017-2018, dim ond 1 oedi o'r fath sydd wedi bod.

### 4.2 Clwstwr Camu i Lawr / Tîm Camu i Lawr

Mae'r dull pinsio wedi cael ei ddefnyddio i wella'r gwaith o ryddhau yn y flwyddyn ddiwethaf trwy greu'r Tîm Camu i Lawr o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r Clwstwr Camu i Lawr yng Ngwasanaethau Cymorth Cymunedol yng Nghyngor Sir Ddinbych. Mae'r Tîm Camu i Lawr yn cynnwys y Tîm Asesu Rhyddhad a Throsglwyddo presennol a'r Nyrsys Cyswllt Rhyddhau wedi gwella gyda chymorth ychwanegol gan y Nyrs Cyswllt Seiciatrig. Mae'r Tîm yn cael ei arwain gan Uwch Reolwr sydd yn Therapydd Galwedigaethol yn ôl proffesiwn ond sydd hefyd wedi gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd.

Ar yr un pryd, sefydlwyd y Clwstr Camu i Lawr gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol o gyllid ychwanegol dros dro gan y Gronfa Gofal Canolradd/Integredig nes diwedd Medi 2017 yn ogystal â throsglwyddo rhai staff o'r Timau Ardal Leol. Mae'r clwstr yn parhau i weithio'n agos gyda'r Un Pwynt Mynediad a'r Gwasanaeth Ail-alluogi. Mae atgyfeiriadau yn cael eu derbyn yn bennaf gan ddau ysbyty aciwt, saith ysbyty cymunedol yn ogystal â Gwasanaeth Gofal Cynyddol yng Ngogledd a De'r Sir.

Ni fydd llwythi achosion Clwstr Camu i Lawr unigol yn fwy na 11 aelod o staff ar unrhyw adeg gan eu bod i gyd yn rheoli'n weithgar ac efallai y bydd gan weithiwr achos unigol achos hyd at 8-10 wythnos yn dibynnu ar yr angen.

Mae'r buddion o lif rhyddhau cleifion yn cynnwys y gallu i ymateb yn sydyn ac i flaenoriaethu rhyddhau; gwybodaeth benodol am y broses ryddhau a'r dewisiadau i hwyluso rhyddhau i leoliad diogel a phriodol, dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n helpu unigolion i gyfleu eu hanghenion a'u pryderon ynghylch rhyddhau, gwybodaeth fanwl o reoli risg yn bositif, gwybodaeth arbenigol ynghylch y broses Gofal Iechyd Barhaus, y gallu i gyfleu tystiolaeth o anghenion ar gyfer pecynnau gofal o gost uchel i hwyluso'r rhyddhau ac i ganfod atebion creadigol ar gyfer cymorth cynaliadwy parhaus yn y gymuned.

Mae agwedd o lwyddiant clwstr Camu i Lawr yn seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth y rheolwr sydd hefyd yn Therapydd Galwedigaethol yn ôl proffesiwn. Mae ganddi ddealltwriaeth lawn o brosesau ysbytai, gofal cymdeithasol, meini prawf ail-alluogi yn ogystal â gwybodaeth arbenigol o ofynion bio/seico/cymdeithasol unigolion a'r adnoddau i'w cyfeirio atynt.

Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn perthynas ag integreiddiad rhwng Tîm Camu i Lawr Glan Clwyd, Clwstr Camu i Lawr Sir Ddinbych a gwasanaeth gwaith cymdeithasol yn seiliedig yn yr ysbyty gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

#### 4.3 Gweithio gydag a chefnogi Cartrefi Gofal

Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Partneriaid ei bod yn bwysig cefnogi'r Sector Cartref Gofal. Prynwyd offer i gefnogi arfer symud a thrafod yn ddiogel; penodwyd ar gyfer swydd Ymarferydd Nyrsio Uwch yn arbennig i gefnogi cartrefi gofal yn Ne Sir Ddinbych; a chyflwynwyd Cynlluniau Cynyddu Triniaethau mewn nifer o gartrefi gofal Sir Ddinbych i breswylwyr yn dilyn y peilot Gofal Canolradd wedi'i ariannu.

#### 4.4 Gweithgaredd Cymunedol Presennol i gefnogi rhyddhau amserol trwy atal derbyniadau yn cynnwys:

- Mae Nyrsys Ardal bellach yn cynnig gwasanaeth 24/7 yn Sir Ddinbych
- Penodwyd tîm Un Pwynt Mynediad Cynllun Atal Codymau bach ym mis Gorffennaf 2017. Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd o fewn cartrefi gofal i atal derbyniadau oherwydd codymau.
- Bellach mae sefydliad o 9 Gweithwyr Cymdeithasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych a rhan fawr o'u rôl yw hwyluso'r broses ryddhau yn ogystal ag atal derbyniad pan yn bosib. Maent at gael yn Un Pwynt Mynediad trwy Wasanaeth Nyrsio Cymunedol ar y penwythnosau. O Ebrill 2016 i Awst 2017 mae'r Gwasanaeth GGCGICH wedi derbyn 256 atgyfeiriadau, 67% o'r rhain yn achosion o ryddhau o'r ysbyty.

- Gwelir gweithgarwch ataliol cynnar trwy ddatblygu Pwyntiau Siarad a'r rôl o Gyfeirwyr Cymunedol yn hanfodol. Mae Pwyntiau Siarad wedi helpu 1464 o ddinasyddion rhwng Gorffennaf 2016 a Mehefin 2017, gyda gwybodaeth (84%), cyngor (83%) a chymorth (7%). Mae'r Gyfeirwyr Cymunedol yn mesur canlyniadau lles i arddangos eu llwyddiant ac mae'n ymddangos eu bod yn cael eu gweld yn uchel eu parch gan bobl broffesiynol a dinasyddion.

#### 4.5 Cynlluniau'r Dyfodol/Cynlluniau Peilot

Mae datblygiadau wedi'u cynllunio yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Mae hynny'n cynnwys datblygu/datblygu pellach:

- Mae uned amlddisgyblaethol yr Henoed yn ceisio atal derbyniadau i'r ysbyty ac i gynnig gofal i'r bobl hynny yng nghartrefi eu hunain yn lle. Bydd cynllun peilot am chwe wythnos ym mis Medi 2017 gyda'r nod o gadw dinasyddion yn heini ac yn iach yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Gall staff cymunedol atgyfeirio unrhyw un sydd yn eu barn nhw yn debyg o elwa o asesiad amlddisgyblaethol ac ymyriad.
- Datblygu Uned Musgrellni gyda chyd-ofal i gleifion musgrell. Bydd cynllun peilot am 6 wythnos yn Hydref 2017.
- Timau Adnoddau Cymunedol. Cyfleoedd i gyd-leoli staff nyrsio, therapïau a gofal cymdeithasol cymunedol yn cael eu hystyried a'u gweithredu ac mae prosiect sylweddol yn cael ei ddatblygu ar gyfer gwaith integredig i wella cydlyn gofal i ddinasyddion. Mae'r tîm Adnodd Cymunedol cyntaf wedi cael ei gyd-leoli yn ysbyty Royal Alexandra yn y Rhyl.
- Y datblygiad o gyfleuster ysbyty newydd yn y Rhyl dros y tymor hirach

#### 4.6 Gwell cyfathrebu a hynny'n rheolaidd:

- Mae trafodaethau partneriaeth cyffredinol wedi'u trefnu'n rheolaidd ar gyfer gweithgaredd partneriaeth cyffredinol ac yn arbennig ar gyfer gofal heb ei drefnu a rhyddhau o'r ysbyty. Yn ystod mis Awst, roedd y drafodaeth yn cynnwys y posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth i sefydlu model 'cartref cyntaf' a thargedu'r cleifion hynny a fyddai'n briodol. Trafodwyd arferion hefyd i sicrhau fod y bobl hynny gyda phecynnau gofal yn barod (sy'n cael eu cynnal yn ariannol am bythefnos pan fydd rhywun yn mynd i mewn i'r ysbyty) ddim yn aros yn hirach nag sydd ei angen pan maent yn ddigon iach i gael eu rhyddhau, gan beryglu aneffeithlonrwydd oherwydd gorfod ail-drefnu cefnogaeth.
- Bellach mae'r Gwasanaeth Nyrsys Ardal a'r Nyrsys Cyflyrau Cronig yn cael gwybod am gleifion gyda chathetrau yn cael eu derbyn fel eu bod yn gallu cefnogi'r grŵp hynny o gleifion sy'n aml yn ddi-amddiffyn i ddychwelyd adref mewn modd amserol.

#### 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cefnogi gwaith o anfon claf adref yn cael effaith amlwg ar y flaenoriaeth gorfforaethol i sicrhau bod pobl di-amddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl.

#### 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Disgwylir y bydd gwaith yn y maes hwn ac unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael effaith bositif ar ddarpariaeth gwasanaeth. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol os na fyddant yn cael eu hariannu gan grantiau fel y Gronfa Gofal Canolraddol. Mae atal mynediad anaddas neu fynediad y gellid ei atal a sicrhau fod y broses ryddhau yn gywir ac yn cael ei gwneud ar yr amser cywir yn debygol o ostwng dibyniaeth ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r cynlluniau ar gyfer rhyddhau amserol o'r ysbyty yn ymwneud yn bennaf â phobl hŷn a'u hangen i gael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol o safon. Mae'r dull gweithredu a ddefnyddir gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r bwriad yw grymuso cymunedau i ddod yn fwy cryf ac i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain. Fel mae cynlluniau ar y cyd yn datblygu, bydd angen asesiadau effaith mwy trwyadl. Mae bod â chynllun datblygu'r gweithlu cryf yn hanfodol. Gweler atodiad o Adroddiad Archwilio Partneriaeth Ionawr 17 (WIBA ynghlwm).

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae cynnwys yr adroddiad hwn wedi ei baratoi mewn ymgynghoriad â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a nodwyd wedi eu trafod mewn fforymau partneriaethol fel Dydd Iau Partneriaeth, Cyd Fforwm Ardal Sir Ddinbych; Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal Ganolog ac amryw o gyfarfodydd a gweithdai gofal heb ei drefnu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau i ddarparu gofal iechyd diogel o fewn Gogledd Cymru yn sylweddol, a dyna pam fod CSS yn blaenoriaethu ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Fwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y pwnc hwn. Mae'r diffyg gweithwyr gofal yn risg i ddiogelwch pobl ddiarffyn yn Sir Ddinbych. Mae camau gweithredu ar gyfer bod yn effeithiol yn cynnwys yr angen am newid diwylliant sylweddol o fewn y sefydliadau yn ogystal â rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Archwilio o safbwynt datblygu polisi ac adolygu a monitro perfformiad yr Awdurdod wrth gwrdd amcanion polisi.

Swyddog Cyswllt:

Prif Reolwr, Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol

Rhif ffôn: 01824 706501

# Hospital Discharge

## Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

|                                      |                                                                                    |
|--------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Assessment Number:                   | 146                                                                                |
| Brief description:                   | Support from health and social care community services to support timely discharge |
| Date Completed:                      | 03/01/2017 10:57:11 Version: 1                                                     |
| Completed By:                        | Cathy Curtis-Nelson                                                                |
| Responsible Service:                 | Community Support Services                                                         |
| Localities affected by the proposal: | Whole County,                                                                      |

# IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

## Score for the sustainability of the approach

Could you do more to make your approach more sustainable?


(2 out of 4 stars)



Actual score: 13/ 24.

## Summary of impact

Wellbeing Goals



|                                                               |          |
|---------------------------------------------------------------|----------|
| A prosperous Denbighshire                                     | Neutral  |
| A resilient Denbighshire                                      | Neutral  |
| A healthier Denbighshire                                      | Positive |
| A more equal Denbighshire                                     | Positive |
| A Denbighshire of cohesive communities                        | Positive |
| A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language | Neutral  |
| A globally responsible Denbighshire                           | Positive |

## Main conclusions

All activities described in the report about hospital discharge are aimed at ensuring people do not remain in hospital longer than is absolutely necessary. This means ensuring we have a robust social care workforce and excellent communication systems between health and social care. It also means that we need to invest in preventative approaches and initiatives that prevent people going into hospital away from their families when it is not necessary. Resilient health communities are what we are aiming for.



# THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

## A prosperous Denbighshire

|                           |                            |
|---------------------------|----------------------------|
| Overall Impact:           | Neutral                    |
| Justification for Impact: | The developments are small |

### **Positive consequences identified:**

It is essential that more health and social care staff are trained and recruited and feel they have an important role to play

A skills-based approach is appropriate

Communication between health and social care staff is essential.

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A resilient Denbighshire

|                           |         |
|---------------------------|---------|
| Overall Impact:           | Neutral |
| Justification for Impact: |         |

### **Positive consequences identified:**

CESI already have an excellent recycling rate for community equipment

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A healthier Denbighshire

|                           |                                                                                    |
|---------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|
| Overall Impact:           | Positive                                                                           |
| Justification for Impact: | More investment in community health services will reduce pressure on hospital beds |

### **Positive consequences identified:**

Maintaining people at home safely and independently with the help of health and social care community services is the core of the report

Part of the prevention work relates to participation and involvement in local communities e.g. the Community Navigators and Talking Points

It has been recognised that a closer relationship with mental health services is necessary at one end of the scale and the importance of the 3rd Sector Coordinator and the provision of information for wellbeing is essential at the other

It has been recognised that the capacity in community health services is poor

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A more equal Denbighshire

|                           |                                                          |
|---------------------------|----------------------------------------------------------|
| Overall Impact:           | Positive                                                 |
| Justification for Impact: | Better access to health and social care for older people |

### **Positive consequences identified:**

The majority of people in hospital are older people and any improvement in services in the community to help them maintain their independence and safety will be positive

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A Denbighshire of cohesive communities

|                           |                                                               |
|---------------------------|---------------------------------------------------------------|
| Overall Impact:           | Positive                                                      |
| Justification for Impact: | People should not be in hospital unless absolutely necessary. |

### **Positive consequences identified:**

Being in hospital when it is avoidable increases the risks of infection and dependency creation. Timely hospital discharge is essential  
Encouraging responsibility to manage on health and well-being is an approach used.

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

|                           |                                                                                                                                                             |
|---------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Overall Impact:           | Neutral                                                                                                                                                     |
| Justification for Impact: | It is difficult to recruit staff across health and social care now and therefore employing a higher ratio of Welsh language speakers is not always possible |

### **Positive consequences identified:**

All services aspire to the Welsh language standards

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

## A globally responsible Denbighshire

|                           |                                                                                                  |
|---------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Overall Impact:           | Positive                                                                                         |
| Justification for Impact: | Better processes and responses from social care mean people can be discharged in a timely manner |

### **Positive consequences identified:**

Right to a family life (by not being in hospital)  
Social care adjusts practice to support the objectives of BCU

### **Unintended negative consequences identified:**

### **Mitigating actions:**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Medi 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Bobby Feeley / Nicola Stubbins

**Awdur yr Adroddiad:** Phil Gilroy

**Teitl:** **Cyllidebau cyfun**

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â threfniadau cyllideb gyfun bresennol ac yn y dyfodol rhwng Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (PBC)

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth ynglŷn â phrofiad yn y gorffennol o gyfuno cyllidebau rhwng CSDd a PBC a diweddarau Aelodau ar ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gyfuno cyllidebau rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal preswyl.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod Aelodau yn ystyried y wybodaeth a ddarperir ac yn rhoi sylwadau ar y profiadau hyd yma yn ogystal â gofynion ar gyfer y dyfodol.

## 4. **Manylion yr adroddiad**

### 4.1 Y Cefndir Cyfreithiol

I ddechrau rhoddodd Deddf Iechyd 1999 hyblygrwydd sylweddol i gyrrff y GIG a llywodraeth leol i gyfuno cyllidebau, integreiddio gwasanaethau ac / neu ddirprwyo'r gwaith o gomisiynu neu reoli darpariaeth gwasanaethau penodol i bartner arweiniol (a gyfeirir atynt yn gyffredin fel Cytundebau Partneriaeth adran 33). Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru, Rhan 9, yn gorchymyn fod asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob Bwrdd Partneriaeth rhanbarthol yn sefydlu ac yn cynnal cyllideb ar y cyd mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal erbyn mis Ebrill 2018.

### 4.2 Profiad Lleol

Yn Sir Ddinbych mae gennym ddau Gytundeb Partneriaeth Aran 33 ffurfiol hirhoedlog a chyfredol yn ymwneud â chyllidebau cyfun; un ar gyfer y gwasanaeth offer cymunedol integredig (CESI) ac un ar gyfer gwasanaeth bychan Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCSWs).

Trafodwyd Adran 33 ar gyfer integreiddio rhai agweddau o Therapi Galwedigaethol yn 2007 -2008, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gytundeb ar yr adnoddau (adnoddau dynol yn yr achos hwn) i'w hymrwymo i'r Bartneriaeth, felly ni chafodd ei llofnodi.

Roedd yna hefyd drefniant anffurfiol sawl blwyddyn yn ôl i fonitro cyllideb gofal canolradd 'rithwir' gyfun, a weithiodd yn dda nes i arian grant gymryd drosodd ac i bartneriaid ddechrau tynnu yn ôl elfennau o'u cyllideb refeniw eu hunain wrth i'r sefyllfa ariannol waethygu o fewn eu sefydliadau eu hunain. Caiff y Pwynt Mynediad Sengl ei fonitro mewn ffordd debyg rŵan.

Mae yna felly brofiad helaeth o gyfuno ar raddfa fechan.

#### 4.3 Dysgu o Brofiad (gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion)

##### 4.3.1 Materion Ariannol

- Mae'n llawer haws i'r Awdurdod Lleol nodi'r cyllidebau a'r symiau perthnasol i'w cynnwys mewn cyllideb gyfun na'r Bwrdd Iechyd, gan fod eu cyllidebau wedi eu rhannu rhwng gwahanol rannau o'r sefydliad.
- Mae angen i wahanol ofynion TAW rhwng sefydliadau hysbysu arfer gorau.

##### 4.3.2 Materion llywodraethu

- Mae'n hanfodol cael cytundeb ffurfiol i egluro a chytuno ar nodau, amcanion a chanlyniadau'r bartneriaeth – mae angen i'r iaith fod yn ddiamwys ac mae angen cytundeb ar ansawdd a safonau

##### 4.3.3 Barn Cyfranogion

- Gwahoddwyd cydweithwyr o PBC a CSDd i rannu eu barn ar 'gyllidebau cyfun' yn seiliedig ar eu profiad personol gyda chyllidebau a sefydlwyd ar gyfer CESI/ SPOA a HSCSW. Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn gefnogol i weld ehangiad cyllidebau cyfun, lle caiff blaenoriaethau eu rhannu.

### 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd darparu cyllidebau cyfun yn cefnogi blaenoriaethau presennol:

- Sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl; a
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

### 6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ar hyn o bryd mae llawer o waith yn cael ei wneud yn rhanbarthol i ddeall goblygiadau cyfuno cyllidebau gofal preswyl. Bydd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn darparu'r manylion hyn.

### 7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Les lleol wedi cael ei gwblhau gan fod cyfuno cyllidebau yn un o ofynion statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, lle cynhaliwyd asesiad effaith cenedlaethol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Dyma'r adroddiad cyntaf i Graffu ar y mater hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ar hyn o bryd mae llawer o waith yn cael ei wneud yn rhanbarthol i ddeall goblygiadau cyfuno cyllidebau gofal preswyl. Bydd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn darparu'r manylion hyn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ar hyn o bryd mae llawer o waith yn cael ei wneud yn rhanbarthol i ddeall goblygiadau cyfuno cyllidebau gofal preswyl. Bydd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn darparu'r manylion hyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Atodiad 1 – Dysgu o Brofiadau

Agweddau Ariannol -

